# Adroddiad Arolygu

**Roseland Childcare**

**1 Lombard Street**
**Y Barri**
**CF62 8DP**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/12/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Roseland Childcare

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Roseland Childcare Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Cofrestrwyd 15 Awst 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.' |

## Crynodeb

***Adolygiad a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19 yw hwn felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.***

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo yn y feithrinfa. Mae ganddynt gydberthnasau cynnes â'r staff ac maent yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau. Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn ymatebol, ac maent yn rhoi sylw i'r plant. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth briodol o deganau, adnoddau a chyfarpar i hybu dysgu a datblygiad y plant. Mae polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith mewn ymateb i COVID-19. Mae'r staff yn hyderus yn eu rôl ac maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn rheoli'r staff yn dda, ac mae'r staff yn canmol y gefnogaeth y maent yn ei chael. Mae'r arweinwyr wedi sefydlu systemau da ac maent yn ymrwymedig i wella'n barhaus. Maent yn ymateb i feysydd i'w gwella ac yn cymryd camau prydlon i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir. Mae'r rhieni'n canmol y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael.

## Llesiant

Mae'r plant yn cael dewis yr hyn y maent am ei wneud. Maent yn chwarae'n hapus yn y feithrinfa. Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau. Maent yn symud yn rhydd rhwng gweithgareddau, gan chwarae â deinosoriaid a gwneud cardiau Nadolig. Er bod dewisiadau chwarae'r plant, wrth reswm, yn fwy cyfyng o ganlyniad i weithdrefnau COVID-19, mae ganddynt ddewis da o gyfleoedd chwarae ac adnoddau i'w diddanu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd. Maent yn setlo'n dda ac yn cael ymdeimlad o berthyn drwy fynychu'r lleoliad. Gwrandewir ar y plant, ac maent yn hyderus i gyfathrebu. Er enghraifft, roeddent yn sgwrsio'n hapus â ni am eu siwmperi Nadolig a'r addurniadau roedd ganddynt yn eu cartrefi. Mae awyrgylch tawel a hapus yn yr ystafelloedd chwarae.

Mae'r plant yn wydn ac yn addasu'n dda i'r trefniadau newydd a'r newidiadau. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo'n fwy aml. Mae'r plant yn cael llawer o ganmoliaeth am ymddygiad cadarnhaol ac maent yn ymateb yn dda i hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff a'u cymheiriaid. Maent yn chware'n hapus gyda'i gilydd ac yn rhannu adnoddau. Pan fydd bach o anghytuno, mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i'r staff sy'n ymyrryd. Mae'r plant yn cael ymdeimlad o gyflawniad. Caiff eu gwaith ei ddathlu a'i arddangos yn y feithrinfa.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff wedi addasu'n dda i'r polisïau a'r gweithdrefnau newydd. Maent yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn rhoi gweithdrefnau glanhau newydd ar waith yn effeithiol. Mae gan y staff wybodaeth dda am sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gweithdrefnau clir ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau. Mae'r prydau bwyd a ddarperir yn iach ac yn faethlon. Mae'r staff yn gwybod sut i godi pryderon diogelu. Maent yn siarad yn hyderus am weithdrefnau diogelu ac yn gwybod y bydd yr arweinwyr yn ymateb i unrhyw bryderon a godir ganddynt. Mae'r staff yn siarad yn gadarnhaol am y gefnogaeth y maent yn ei chael gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa, ac maent yn ymrwymedig i wella'n barhaus. Ar adeg yr arolygiad, dim ond un ymarfer gwagio adeg tân oedd wedi cael ei gynnal. Mae'r staff wedi cynnal mwy o ymarferion ers hynny ac wedi'u cofnodi'n briodol. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu, cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda â'r plant, gan gynnal sgyrsiau ystyrlon â nhw a gan gefnogi eu chwarae a'u dysgu. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn dda. Clywsom sawl achos o ganmol ymddygiad cadarnhaol ac atgoffa'r plant megis “*No thank you*” (Dim diolch) a “*Let’s be nice and kind please*” (Beth am i ni fod yn neis ac yn garedig?). Mae'r staff yn trin y plant yn gynnes, ac ag urddas a pharch.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Maent yn siarad yn hyderus am eu rôl fel gweithwyr allweddol. Maent yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau sydd o ddiddordeb i'r plant. Mae'r staff yn gwerthuso'r gweithgareddau er mwyn deall yr hyn a aeth yn dda, yr hyn roedd y plant yn ei fwynhau a sut y gellir gwella'r gweithgaredd y tro nesaf.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cyflwyno gweithdrefnau ac asesiadau risg newydd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i gadw plant, staff a'r cyhoedd yn ddiogel yn ystod pandemig presennol COVID-19. Mae'r feithrinfa yn darparu awyrgylch croesawgar ac mae'n lân ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda.  Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg dyddiol o'r holl ardaloedd a ddefnyddir gan y plant ac yn cadw cofnodion dyddiol o'r glanhau a wneir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn cyflogi glanhawr sy'n glanhau bob dydd ar ôl i'r plant adael. Mae wedi cwblhau cwrs glanhau COVID-19.

Mae'r holl wiriadau iechyd a diogelwch arferol sy'n ofynnol wedi cael eu cynnal. Mae'r adeilad yn ddiogel ac mae camerâu teledu cylch cyfyng ym mhob ystafell chwarae, sy'n cynnig diogelwch ychwanegol.

Mae'r prif ystafelloedd yn drefnus ac yn groesawgar. Caiff gwaith y plant ei arddangos a'i ddathlu. Mae amrywiaeth eang o deganau ar gael i'r plant hŷn a gallant symud rhwng gweithgareddau'n hawdd. Mae gan y babanod ddewis da iawn o deganau a gweithgareddau synhwyraidd i ddewis ohonynt. Mae'r adnoddau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, maent o ansawdd da a chânt eu glanhau'n rheolaidd.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa yn gweithio'n galed i ddarparu gofal plant o ansawdd da. Mae datganiad o ddiben clir sy'n rhoi gwybodaeth gywir i'r rhieni am y ffordd y caiff y feithrinfa ei rhedeg. Mae gweledigaeth glir gan y bobl sy'n rhedeg y feithrinfa. Mae gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i gefnogi'r gwaith o redeg y feithrinfa yn ddidrafferth. Mae adroddiad manwl ar ansawdd y gofal sy'n disgrifio'r hyn y mae'r feithrinfa yn ei wneud yn dda, a'r hyn y mae'n awyddus i'w wella. Mae gweithdrefnau recriwtio cadarn yn sicrhau bod nifer addas o staff cymwys a phrofiadol yn cael eu cyflogi i weithio gyda'r plant. Cadarnhaodd y staff eu bod yn mwynhau gweithio yn y feithrinfa a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, gan wybod y gallent fynd at y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth am help a chefnogaeth pe bai angen. Cynhelir sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd staff yn rheolaidd er mwyn trafod gwybodaeth bwysig.

Gwnaethom fwrw golwg dros sampl o'r polisïau a'r gweithdrefnau a gwelsom eu bod yn adlewyrchu'r lleoliad a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Yn unol â chanllawiau cyfredol, mae polisi ac asesiad risg penodol sy'n ymwneud â phandemig COVID-19 ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff y polisïau hyn eu cyfleu i'r staff yn effeithiol. Gwnaethom siarad â'r staff a ddywedodd wrthym am y gweithdrefnau sydd wedi cael eu rhoi ar waith, megis gweithdrefnau glanhau newydd. Roeddent yn hyderus ynglŷn â'u cyfrifoldebau.

Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon ar y feithrinfa, a gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt gydberthnasau da â'r staff a'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa. Maent o'r farn eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a bod eu plant yn cael eu cefnogi'n dda. Dywedodd y rhieni wrthym fod y plant bob amser yn dangos y geiriau newydd y maent wedi eu dysgu, gan gynnwys rhai geiriau Cymraeg.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol | | |
|---|---|---|
| Dim | | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd y mae angen eu gwella | |
|---|---|
| Dim | |

| Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol bob amser |
|---|

Sicrhau bod ymarferion gwagio adeg tân yn cael eu cynnal o leiaf bob chwe mis

| | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/03/2021